



**Dyddiad:** 20 Hydref 2011

**Amser:** 13.00

**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd

**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Dianne Bevan, estyniad 8991

## **Adolygiad o fuddiannau ac arbedion UNO**

### **1.0 Diben a chrynodeb**

- 1.1 Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2011, pwysleisiodd y Comisiwn pa mor bwysig oedd monitro'r buddiannau a'r arbedion a geir drwy brosiect UNO, a bod adolygiadau chwe-misol yn cael eu cynnal ac adroddiadau amdanynt yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn.
- 1.2 Dyma'r diweddariad cyntaf ar y prosiect a'i amcanion, a cheir asesiad o'r buddiannau a'r arbedion a wireddwyd hyd yma.

### **2.0 Argymhellion**

- 2.1 Gwahoddir y Comisiwn i nodi'r adroddiad cynnydd a'r mesurau a roddwyd ar waith i ddatrys y materion sy'n weddill.

### **3.0 Ymgynghori**

- 3.1 Gofynnwyd i holl ddefnyddwyr y system gyfrannu ag at y gwersi a ddysgwyd, ac fe gynhaliodd y bwrdd prosiect ymarfer gwireddu buddiannau. Holwyd am safbwyntiau Aelodau'r Cynulliad drwy drefniant un wrth un yn eu cyfarfodydd â'r rheolwr cyfrif TGCh.

### **Trafodaeth**

#### **4.0 Cefndir**

- 4.1 Prif nodau prosiect UNO oedd diweddarau'r system TGCh, galluogi'r Cynulliad i weithio'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, gwella parhad busnes a galluogi'r Cynulliad i wneud dewisiadau cost-effeithiol ar gyfer gwasanaethau TGCh yn y dyfodol.
- 4.2 Dyma'r buddiannau a ragwelwyd yn sgil y prosiect:

- sicrhau defnydd mwy rhyng-gysylltiedig o adnoddau drwy roi'r Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad ar yr un rhwydwaith, a gweithio'n fwy effeithlon drwy hynny;
- creu arbedion drwy ddarparu platfform annibynnol er mwyn cyflenwi gwasanaethau mewn modd integredig, a gaiff eu cynrchu drwy'r dull mwyaf cost effeithiol ac effeithlon;
- canlyniadau mesuradwy yn sgil gweithredu technolegau, systemau a phrosesau newydd drwy foderneiddio'r ystâd TGCh a darparu'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ymgysylltu â'r cyhoedd;
- gwella parhad busnes a gwneud y system yn fwy cadarn; a
- chysylltedd gwell, yn enwedig o swyddfeydd etholaethol.

4.3 Cafodd y system ei gosod ar gyfer 800 o ddefnyddwyr mewn mwy na 100 o leoliadau, a chrëwyd canolfan gweinydd pell newydd er mwyn sicrhau cadernid a chyfleuster adfer sylweddol ar gyfer holl TG y Cynulliad. Cafodd pum deg o raglenni eu mudo o'r hen system i'r system newydd, a rhoddwyd fersiwn ddiweddaraf meddalwedd Microsoft i bob defnyddiwr. Er bod mwyafrif y trosglwyddiadau i'r system newydd wedi bod yn llwyddiannus, mae amryw o faterion technegol sylweddol wedi achosi problemau parhaus i'r defnyddwyr.

## 5.0 Materion technegol sy'n weddill

5.1 Mae cyfres o faterion technegol ar ôl sydd heb eu datrys eto. Nid yw'r rhain yn effeithio ar yr holl ddefnyddwyr drwy'r amser, ond maent yn anfoddhaol iawn i'r rhai yr effeithir arnynt. Dyma'r prif faterion sy'n weddill:

- Rhaglenni Office - llofnodion e-bost yn diflannu, hyperddolenni mewn dogfennau Word ddim yn gweithio, y geiriadur addasu a mynediad at ddogfennau diweddar heb eu diweddarau;
- Internet Explorer - heb gadw ffefrynnau;
- Ffont generig a Gosodiadau lleol - gwahaniaethau rhwng gwahanol raglenni Office;
- Argraffu - argraffyddion diofyn yn dychwelyd i'r gosodiadau argraffydd blaenorol; a

- Caseworker – negeseuon gwall wrth atodi dogfennau a negeseuon e-bost i'r system.

- 5.2 Mae cynllun wedi'i greu i ddatrys y problemau technegol sy'n weddill ac mae Atos (Siemens Business Services gynt) yn darparu adnoddau technegol yn benodol er mwyn ymchwilio i ddatrysiadau a gwneud cynnydd arnynt, a hynny heb ddim cost ychwanegol i'r Cynulliad.
- 5.3 Darparodd Atos y newidiadau a wnaed i drwsio'r diffygion a oedd yn weddill yn y system yn ystod yr haf, pan gynhaliwyd profion helaeth. Fel y mae ar 6 Hydref, mae ychydig yn fwy na 100 o ddefnyddwyr, staff y Cynulliad yn bennaf, wedi symud i'r seilwaith newydd sy'n ymgorffori'r newidiadau hyn. Mae'r cynlluniau terfynol ar y gweill i gyflwyno'r newidiadau i'r system i weddill y defnyddwyr yn ystod mis Hydref. Ac eithrio'r neges gwall yn Caseworker wrth atodi dogfennau, lle mae angen newid rhaglen Caseworker, cred Atos y bydd yr holl broblemau eraill wedi'u datrys drwy'r newidiadau hyn. Mae'r gwaith i newid y system Caseworker yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd.

## 6.0 Buddsoddiad ariannol

- 6.1 Cyfanswm yr arian a fuddsoddwyd yn y prosiect oedd £4,256,525, yn erbyn cyllideb derfynol o £4.3m. Drwy gyflawni'r gwaith hwn yn 2010-11, fel prosiect unigol, amcangyfrifir i'r Comisiwn arbed £0.9 miliwn (20 y cant), a fyddai fel arall wedi cael ei wario petai'r systemau wedi'u diweddarau a'u hailosod yn ysbeidiol.

## 7.0 Adolygiad o'r buddiannau

- 7.1 Nod yr adolygiad o'r buddiannau yw pennu a yw'r prosiect wedi esgor ar lefel briodol o fuddiannau mesuradwy yn unol â lefel y buddsoddiad ynddo. Mae'r dulliau o fesur yn cynnwys monitro costau, casglu adborth gan ddefnyddwyr, cyfarfodydd rheolaidd â chyflenwyr a monitro effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau newydd. Mae cynllun buddiannau wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**, a rhoddir crynodeb o'r cynnydd isod.

## 8.0 Arbedion arian parod

- 8.1 Bu prosiect UNO yn fodd i'r Cynulliad resymoli nifer y defnyddwyr a negodi ei gytundeb cefnogi ei hun (PSM2) ar sail model gwasanaeth newydd, a fydd hefyd yn rhoi dealltwriaeth gliriach i'r Cynulliad o'i gostau TGCh. Mae'r trafodaethau i negodi'r PSM2 wedi bod yn faith, ond maent bron wedi'u cwblhau. Cyn gynted ag y daw'r trafodaethau i ben, bydd hynny'n ein rhoi

mewn sefyllfa llawer gwell i benderfynu pa welliannau neu ostyngiadau y dylid eu gwneud er mwyn cysoni gwasanaethau â'r modd y caiff strategaethau eu datblygu yn y dyfodol, a phennu'r effaith ar gostau o ganlyniad i hynny.

- 8.2 Yn y flwyddyn ariannol hon, mae gwaith ar y gweill i gyflenwi cylchedau data newydd i'r swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol, cartrefi Aelodau'r Cynulliad, cartrefi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad. Mis Rhagfyr 2011 yw'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arbed oddeutu £200,000 y flwyddyn i'r Comisiwn, a hefyd yn gwella cysylltedd.

## 9.0 Gwella effeithlonrwydd

- 9.1 Mae integreiddio'r ddau rwydwaith i un plattform yn golygu y gallwn olrhain a chofnodi nifer y defnyddwyr yn haws, sy'n effeithio ar ein taliadau. Gellir hefyd olrhain a chofnodi rhaglenni'n gywirach, at ddibenion rheoli asedau, a fydd yn gwella'n cynllunio ar gyfer newidiadau i'r dyfodol.
- 9.2 Mae fersiwn ddiweddaraf Microsoft Office wedi gwella'r ffordd o gyflwyno gwaith i Aelodau ac mewn cyhoeddiadau, a'i wneud yn fwy effeithlon.
- 9.3 Er i'r Ddesg Gymorth dderbyn llawer iawn o alwadau am gymorth i ddechrau, mae nifer y galwadau wedi gostwng bellach ers rhoi'r prosiect ar waith. Mae defnyddwyr y Cynulliad bellach yn rhannu Desg Gymorth gyffredin sydd ar wahân i ddesg y Llywodraeth (er bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r Gweinidogion ym Mae Caerdydd). Ceir plattform cyflenwi mwy cyson, sy'n lleihau'r cymhlethdod a nifer y systemau a gynhelir.

## 10.0 Gwella gwasanaethau

- 10.1 Mae'r cytundeb cymorth i wasanaethau newydd (PSM2) yn cael ei negodi ag Atos. Nod y cytundeb hwn yw gwella lefelau'r gwasanaeth i ddefnyddwyr yn seiliedig ar anghenion, blaenoriaethau a strategaeth y Cynulliad, er mwyn gwella gwasanaethau a sicrhau eu bod yn gost effeithiol. Mae trefniadau cymorth dros dro wedi bod yn weithredol ers i'r prosiect gael ei gyflwyno.
- 10.2 Mae dull mwy diogel a llai cymhleth o gysylltu â gwasanaethau'r Cynulliad wedi cael ei ddarparu drwy gyflwyno gylchedau data newydd ar rwydwaith ardal eang i'r Aelodau. Mae'n darparu cymorth ar-lein o bell sy'n gyflymach ac yn fwy ymatebol na'r hyn a oedd ar gael yn flaenorol. Dyma faes hefyd y dyfarnai'r Aelodau sgôr isel iawn ar ei gyfer yn yr arolwg TGCh blynyddol.

10.3 Mae mwy o ddefnyddwyr yn defnyddio systemau'r Cynulliad o bell drwy systemau diogel a hygyrch, gan alluogi ymagwedd fwy hyblyg at weithio.

10.4 Roedd y prosiect yn caniatáu i staff y Cynulliad adael rhynggrwyd ddiogel y llywodraeth (gsi). Mae hyn wedi esgor ar fuddiannau yn ein defnydd o e-ddemocratiaeth, gan fod mwy o ryddid i staff y Cynulliad ddefnyddio proffiliau'r cyfryngau cymdeithasol i'w hysbysu am faterion a storïau sy'n berthnasol i'w gwaith a gwella ymgysylltiad y Cynulliad â'r cyhoedd. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol at ddibenion y Cynulliad wedi gwella, er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cyflwyno diweddariadau Twitter newydd i hybu eu gwaith eu hunain a gwaith yr Aelodau.

### 11.0 Bodlonrwydd cwsmeriaid

11.1 Bu'r ymateb gan ddefnyddwyr y system yn gymysg iawn. Er bod y mwyafrif yn ymddangos yn gymharol fodlon, mae'r materion sy'n weddill a ddisgrifir uchod yn achosi cryn anhawster a rhwystredigaeth. Mae cynllun wedi'i sefydlu i ddatrys y materion hyn, ac mae rheolwyr cyfrifon TGCh yn gweithio'n agos iawn â'r defnyddwyr er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt am gynnydd. Er ei bod yn amlwg bod rhai o ddefnyddwyr y system newydd yn ffafrio'r system a ddisodlwyd, rydym yn anelu i wella'u profiadau ac yn darparu hyfforddiant lle bo'r angen.

11.2 Cafodd y system ei dylunio'n wreiddiol drwy ymgynghori â'r Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad. Cynhaliwyd yr arolwg defnyddwyr cyntaf ar ôl rhoi UNO ar waith ym mis Mawrth 2011. Defnyddir y canlyniadau i fesur y lefelau bodlonrwydd a'r buddiannau a gyflawnir dros amser. Yn **Atodiad B** ceir crynodeb o ganlyniadau'r arolwg cyntaf, er bod lefel yr ymateb ymysg yr Aelodau yn isel. Cynhelir arolwg arall pan fo'r materion sy'n weddill wedi'u datrys a phan fydd defnyddwyr wedi cael mwy o brofiad o'r system ac o'r cylchedau data newydd, sy'n cael eu gosod ar hyn o bryd.

### 12.0 Methodoleg

12.1 Mae methodoleg gyson yn cael ei datblygu er mwyn mesur pob un o'r buddiannau a nodwyd a darparu ar gyfer adroddiadau cywirach dros gyfnod. Mae gwybodaeth data gwaelodlin yn cael ei choladu ac fe'i defnyddir i ddatblygu cyfres o fatrics er mwyn eu cymharu yn y dyfodol.

### 13.0 Strategaeth TGCh

13.1 Prif nod UNO oedd rhoi'r Cynulliad mewn sefyllfa lle gallai wneud penderfyniad annibynnol ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau TGCh ar ôl 2014.

13.2 Er mis Mawrth 2011, mae grŵp Strategaeth TGCh wedi cael ei ffurfio i ystyried yr opsiynau amrywiol sydd ar gael. Mae'r grŵp wedi gofyn am gyngor gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, wedi cynnal dadansoddiad o'r diffygion gyda Gartner, ac wedi cynnal gwaith meincnodi gyda chyrrff deddfu eraill y DU. Caiff opsiynau eu cyflwyno gerbron y Comisiwn ym mis Tachwedd.